PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Aelodau Annibynnol: Hugh Thomas<br>Gavin McArthur a/ac David Price<br>Cynghorwyr Howells, Lister, McKerlich, Singh a/ac Williams |

63 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Cunnah.

64 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 5.1 | Perchennog eiddo yn Heol y Porth sydd wedi'i chynnwys mewn mesurau gwella ansawdd aer |

65 : PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY

PENDERFYNWYD – bod D. Hugh Thomas yn cael ei benodi'n Gadeirydd a bod Gavin McArthur yn cael ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd.

66 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Materion Gweithredol

67 : ANDREW GREGORY - DIWEDDARIAD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL (A RHEOLI RISGIAU ARFORDIROL)

*Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant yn yr eitem hon dan God Ymddygiad yr Aelodau fel perchennog eiddo yn Heol y Porth sydd wedi'i chynnwys yn y mesurau gwella ansawdd aer.*

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, ynghyd â rheolwyr y gwasanaeth a swyddog o'r Uned Wydnwch, adroddiad ar yr amgylchedd rheoli cyfarwyddiaethau a briff wedi'i ddiweddaru ar reoli risgiau arfordirol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o'r prif gyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau a gwybodaeth am y Risgiau Corfforaethol mwyaf sylweddol a oruchwylir gan y Gyfarwyddiaeth, sef Ansawdd Aer, Erydu Arfordirol a'r Argyfwng Hinsawdd. Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o'r mentrau a'r mesurau sydd ar waith i liniaru pob risg.

Rhoddwyd crynodeb i'r aelodau o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Datganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr (SMAS) o fis Medi 2019, a nodwyd bod y broses lywodraethu a rheolaethau yn gyffredinol yn gadarn ar draws y gyfarwyddiaeth. Adroddwyd bod angen atgyfnerthu nifer o feysydd llywodraethu gyda sicrwydd/gweithredu 'cyfyngedig

neu gymysg'.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod adolygiad SMAS yn tynnu sylw at nifer o faterion arwyddocaol, gan gynnwys yr angen i fynd ati'n rhagweithiol i reoli a chyflawni arbedion ac o ran cyflawni rhaglenni mawr.

Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r ymrwymiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd a'u sgoriau sicrwydd, yn ogystal â gwybodaeth am asesiadau allanol ac ardystiadau ehangach.

Rhoddwyd trosolwg o reoli risgiau arfordirol gan ganolbwyntio ar effaith bosibl llifogydd, manylion ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ardal risg uchel, a lefel y trefniadau rheoli digwyddiadau sydd ar waith.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Roedd aelod o'r farn, o ran ansawdd aer, bod y ffocws ar ganol y ddinas a'i bod yn bosibl y gallai problemau ansawdd aer gael eu gwasgaru i ardaloedd eraill.  Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr pa mor hyderus yr oeddent na fyddai unrhyw effaith andwyol ar ansawdd yr aer mewn ardaloedd eraill.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i fynd i'r afael â lefelau ansawdd aer yn Stryd y Castell.  Bydd y coridorau clyfar arfaethedig ar y prif lwybrau yn ei gwneud yn bosibl rheoli llif y traffig.  Bydd amryw o waith lliniaru arall hefyd mewn ardaloedd megis Grangetown a Glan yr afon.

- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr a fyddai ffyrdd o amgylch Stryd y Castell yn parhau i gael eu monitro o ran ansawdd aer.  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'r monitro'n parhau.  Byddai monitro hefyd yn parhau yn yr Ardaloedd Monitro Ansawdd Aer presennol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod opsiynau'n cael eu harchwilio ar gyfer monitro ansawdd aer mwy cynhwysfawr ar draws y ddinas gyfan.

- Gan gyfeirio at y Cynllun Aer Glân, gofynnodd yr Aelodau am fanylion y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod rheolaethau gwleidyddol, rheolaethau cyfarwyddiaethau a threfniadau ymgysylltu allanol ar waith.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Bwrdd Rhaglen ar lefel y Cabinet ac Arweinydd Rhaglen o fewn y gyfarwyddiaeth.  Byddai ymgysylltu allanol â Llywodraeth Cymru yn parhau.

- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr a fyddai'r broses o fonitro deunydd gronynnol yn cael ei chynnwys.  Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai lefel o fonitro ond byddai angen iddynt ofyn am arweiniad ynghylch hyd a lled y monitro hwn.

- Nododd un aelod, o ran y SMAS, fod yna sgôr 'gyfyngedig' yn erbyn Sicrwydd Partneriaeth.  Derbyniodd y Cyfarwyddwr mai hwn oedd yr eitem sicrwydd lleiaf llwyddiannus  Mae'n ofynnol i'r gyfarwyddiaeth weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Fargen Ddinesig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Trafnidiaeth i Gymru ac awdurdodau cyfagos.  Dadleuai'r Cyfarwyddwr fod gwaith yn mynd rhagddo ond, o ran llywodraethu, dywedodd fod mwy o waith i'w wneud.  Rhagwelwyd y byddai'r Papur Gwyn Trafnidiaeth yn ffurfio'r sail ar gyfer cysondeb o ran cytundeb.

- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr i roi sicrwydd o ran pe na fyddai'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y project Rheoli Llifogydd Arfordirol yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, y byddai adnoddau'n cael eu nodi i sicrhau bod y project yn cael ei gyflawni. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi 75% o'r cyllid. Byddai'r project yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Roedd y rheolwyr yn hyderus y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r broses o weithredu'r cynllun.

- Croesawodd yr Aelodau y cynnydd a wnaed o ran y broses ddylunio gymhleth ar gyfer y cynllun. Nodwyd bod tua 1000 o anheddau yn agored a gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr a oedd y trefniadau wrth gefn presennol wedi'u profi. Dywedodd swyddog yr Uned Wydnwch fod Ymarfer Megacyma wedi profi perygl llifogydd arfordirol ar lefel genedlaethol, a chyfeiriwyd at gyfrifoldebau cenedlaethol yn achos llifogydd o'r fath mewn perthynas â Llywodraeth Cymru a COBRA. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Phrifysgol Caerdydd i ddeall y risgiau a'r bygythiadau yn well, ond y byddai unrhyw atebion yn debygol o fod yn rhai dros dro, gan, pan fo digwyddiad difrifol, na fyddai grwpiau o bobl De-ddwyrain Cymru yn dod yn ôl, yn seiliedig ar y llifogydd a welwyd mewn mannau eraill. Roedd dyluniad cynllun amddiffyn yr arfordir wedi'i godi 300mm mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, ac mae wedi'i gynllunio i wrthsefyll digwyddiad unwaith mewn 200 o flynyddoedd a 40%.

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid nodi'r adroddiad;

(2) Y byddai y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn rhoi manylion ar y gwaith o fonitro deunydd gronynnol yn rhan o'r Strategaeth Aer Glân.

68 : CHRISTOPHER LEE - DIWEDDARIAD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL (A LLYWODRAETHU IECHYD A DIOGELWCH)

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adnoddau a RhG Iechyd a Diogelwch adroddiad ar yr amgylchedd rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, gan gynnwys diweddariad ar drefniadau Llywodraethu Iechyd a Diogelwch. Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg o strwythur y gyfarwyddiaeth a chrynodeb o'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth y mae'n eu darparu.

O ran rheoli a lliniaru Risgiau Corfforaethol, dywedwyd wrth yr Aelodau fod risgiau perthnasol yn cael eu rheoli ar y cyd â chynlluniau darparu gwasanaethau, a'u bod yn cael eu hadrodd yn chwarterol drwy'r Tîm Rheoli Adnoddau a bod Hyrwyddwyr Risgiau'n cael eu penodi ar eu cyfer drwy Gofrestri Risgiau Cyfarwyddiaethau a Chorfforaethol.

Nodwyd sefyllfa ganol y flwyddyn Datganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr o ran Adnoddau yn yr adroddiad. Hefyd yn yr adroddiad roedd crynodeb o'r archwiliadau mewnol a gwblhawyd yn y Gyfarwyddiaeth a gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r camau a gymerwyd lle 'Annigonol gydag Angen Mawr i Wella oedd canlyniad archwiliad'.

Amlinellodd RhG Iechyd a Diogelwch y fframwaith ar gyfer llywodraethu iechyd a diogelwch, a chrynhodd gwybodaeth berthnasol am dargedau a chyflawni.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod a allai Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) gynnig unrhyw arweiniad ar ddull y Cyngor o ymdrin â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Dywedodd cynrychiolydd SAC fod adroddiad ar aer glân wedi'i gyhoeddi ac y byddai adroddiad arall ar hamdden yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiadau'n cynnwys rhai argymhellion ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i ymgorffori egwyddorion Deddf LlCD. Disgwylir adroddiad cenedlaethol pellach yn cynnwys astudiaethau achos ym mis Ebrill. Mae SAC wedi cynnal nifer o seminarau ac yn aml mae'n gofyn sut y gall cynghorau wella o ran eu cyfrifoldebau Deddf LlCD. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod SAC yn derbyn bod awdurdodau yn wynebu heriau mawr o ran symud adnoddau i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y Gyfarwyddiaeth yn cefnogi'r fframwaith LlCD ar draws pob cyfarwyddiaeth, ac mae'n rhaid i gydweithwyr ymwreiddio methodoleg achos busnes yn eu prosesau.

- Nododd un aelod faint y Gyfarwyddiaeth Adnoddau a'i rolau a'i chyfrifoldebau allweddol a gofynnodd sut, yn ymarferol, y gall y Cyfarwyddwr Corfforaethol adnoddau reoli ei bortffolio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ei fod yn gallu rheoli ei bortffolio oherwydd cryfder y tîm sy'n ei gefnogi. Mae pobl ragorol yn y tîm hwnnw ac maent yn cyflawni newid a chefnogaeth go iawn. Mae trefniadau rheoli ar waith ac mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn dibynnu ar reolwyr i uwchgyfeirio materion ato lle bo angen.

- Trafododd y Pwyllgor yr amgylchiadau a arweiniodd at fethiant bloc o doiledau mewn ysgol gynradd i gydymffurfio â safonau Iechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru, trwy osod pethau dal papur toiled cyffredin y tu allan i giwbiclau toiledau. Yn ôl RhG Iechyd a Diogelwch, roedd caffaeliadau hylendid yn cael eu rheoli a'u trefnu gan yr ysgolion eu hunain, ac mai penaethiaid sy'n gyfrifol am reoli materion iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd mewn ysgolion. Roedd y safonau sy'n rheoli safon toiledau ysgolion yn hysbys iawn o fewn y sector addysg a dylai'r pennaeth fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cymorth wedi'i gynnig i'r pennaeth, yn anffodus ni fanteisiwyd ar y cynnig hwn. Gofynnodd Aelod pam nad oedd y materion hyn, yn dilyn archwiliadau Iechyd a Diogelwch, wedi'u nodi a'u datrys yn gynt. Dywedodd RhG Iechyd a Diogelwch na fyddai Swyddogion Iechyd a Diogelwch yn archwilio ciwbiclau toiledau'n rheolaidd. Fodd bynnag, cynhelir rhaglen o archwiliadau hylendid ar draws yr ystâd ysgolion, a fydd yn rhoi adborth i ysgolion a'r adran addysg ar unrhyw welliannau sydd eu hangen.

- Roedd aelod o'r farn bod cydymffurfiaeth â gwaith cynnal a chadw statudol o 75% yn galonogol a gofynnodd a oedd swyddogion yn hyderus bod yr adnoddau oedd eu hangen i gyflawni gwelliant pellach ar gael. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod adnoddau cyfredol yn cael eu blaenoriaethu i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth statudol. Byddai'r Rhaglen Gyfalaf a'r Rhaglen Rheoli Asedau Ysgolion yn blaenoriaethu cydymffurfiaeth statudol a gwaith cysylltiedig.

- Gofynnodd Aelod pa lefel o yswiriant indemniad/atebolrwydd sydd gan y Cyngor, a dywedwyd wrtho fod modd yswirio rhai risgiau ond ni ellir yswirio yn

erbyn rhai risgiau.  Er enghraifft, nid oes modd yswirio'r methiant i weithredu'n unol â'r gyfraith.  Gofynnodd yr Aelodau a oedd yswiriant yn cael ei gynnig yn ganolog ac a oes gan ysgolion un pwynt yswiriant dan yr AALl neu a all yr ysgol drefnu ei hyswiriant ei hun.  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan Ysgolion Cymunedol yswiriant corfforaethol ar gyfer adeiladau, mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn trefnu eu hyswiriant eu hunain.  Trefnir Atebolrwydd Cyflogwyr ac Atebolrwydd Cyhoeddus yn gorfforaethol ar gyfer Ysgolion Cymunedol, mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn trefnu eu hyswiriant eu hunain.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

Cyllid

69 : DIWEDDARIAD ARIANNOL LLAFAR GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ariannol ar lafar.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod dau adroddiad allweddol wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar.  Derbyniwyd adroddiad sefyllfa mis 6 gan y Cabinet ar 21 Tachwedd 2019 a chafodd yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ei ystyried gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2019.

Ym mis 6, nodwyd gorwariant cyffredinol o £214,000, a oedd yn welliant ar adroddiad mis 4.  Gwnaethpwyd yn iawn am orwariant nifer o gyfarwyddiaethau trwy ddefnyddio’r gyllideb wrth gefn ac arbedion.  Roedd adroddiad sefyllfa mis 9 yn cael ei baratoi a bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i lywio penderfyniadau cyllidebol.  Roedd angen ailosod rhai cyllidebau er mwyn sicrhau gwydnwch.

Derbyniwyd ffigur setliad refeniw Llywodraeth Cymru ac roedd yn well na'r disgwyl.  Cafodd y CATC lai o arian gan Lywodraeth Cymru ond cynrychiolodd y ffigur grant dros dro gynnydd mewn gwirionedd.   Byddai cynnydd o'r fath yn caniatáu i'r Cyngor ail-seilio ei gyllidebau a lleihau'r lefel o arbedion sydd eu hangen ar draws gwasanaethau.   Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod risgiau'n dal i fod yn gysylltiedig â'r setliad ac nad oedd unrhyw beth i nodi cynnydd sylweddol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r broses ymgynghori ar y gyllideb wedi dechrau a bydd wedi'i chwblhau erbyn 31 Ionawr 2020.  Caiff adroddiad ar strategaeth y gyllideb ddrafft ei ystyried gan Bwyllgorau Craffu ym mis Chwefror cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 20 Chwefror 2020 a'r Cyngor ar 27 Chwefror 2020.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod yr awdurdod yn dal i geisio cyflawni £9,500,000 o arbedion, sy'n ymrwymiad sylweddol.  Fodd bynnag, bydd ffigur y setliad yn caniatáu i'r Cabinet flaenoriaethu adnoddau ar draws gwasanaethau.  Bu newid yn y dull o gyflawni arbedion yn y gyllideb hefyd, lle oni nodir bod modd cyflawni arbedion ni fyddent yn ffurfio rhan o’r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y CATC wedi cael ei fodelu ar sail cynnydd o 4.5% yn y dreth gyngor.

Llywodraethiant a Rheoli Risg

## 70 : BIL ETHOLIADAU A LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) - CRYNODEB Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Croesawodd y Cadeirydd Bennaeth Swyddfa'r Cabinet i'r cyfarfod. Fe'i gwahoddwyd i roi cyflwyniad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ac ar ôl hynny gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am y swyddogaethau newydd a nodir yn y Bil sydd â’r nod o gryfhau llywodraethu mewnol. Dywedodd Pennaeth y Cabinet fod y Bil yn amwys o ran hyn ond bod disgwyl y byddai arweiniad yn cael ei gynnig.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw sicrwydd yn y Bil ynghylch y posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng y swyddogaethau Archwilio a Chraffu. Dywedodd Pennaeth y Cabinet fod hyn wedi'i drafod yn ymateb Cyngor Caerdydd i'r ymgynghoriad. Mae ymateb CLlLC yn nodi bod angen pennu ffiniau clir rhwng Archwilio a Chraffu. Gwnaed cynnig i rannu'r ymateb gyda'r Pwyllgor.

Gofynnodd un aelod am fwy o fanylion am y 'mwyafrif' sydd ei angen i newid y system bleidleisio ym mhob cyngor. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai mwyafrif yn mynnu bod angen mwyafrif o ddwy ran o dair i gyflwyno newid yn y system bleidleisio a ddefnyddir mewn etholiadau lleol. Y cynharaf y gallai newid o'r fath ddod i rym fyddai ar gyfer etholiadau lleol 2027.

Gofynnod Aelod a oedd rhyddid neu ddarpariaeth yn y Bil i gyflwyno deddfwriaeth bellach h.y. cymalau Harri VIII neu'r pŵer i wneud pwerau. Dywedodd Pennaeth y Cabinet fod barn CLlLC yn glir – dylai'r Bil nodi'r hyn y disgwylir i awdurdodau ei wneud gyda phwerau cyfyngedig i Weinidogion. Gofynnodd yr Aelodau a oedd darpariaeth yn y Bil i sicrhau bod arweiniad yn cael ei roi. Dywedodd Pennaeth y Cabinet y byddai angen iddo gymryd safbwynt cyfreithiol o ran graddau'r ddarpariaeth honno. Caiff y Pwyllgor ymateb ysgrifenedig i hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am rôl y Pwyllgor Archwilio mewn asesiadau perfformiad. Nododd Pennaeth y Cabinet fod mwy o bwyslais ar hunanasesu ac y byddai angen galw ar adroddiadau perfformiad ac argymhellion archwilio. Rôl y Pwyllgor Archwilio fyddai derbyn yr adroddiadau hynny'n ffurfiol. Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ran i'w chwarae ar Banel Adolygu Cymheiriaid hefyd – a fyddai'n cynnwys uwch-wleidydd, uwch gyfarwyddwr, rhanddeiliaid trydydd sector ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen eglurder o ran y ffiniau rhwng y Pwyllgor Archwilio a rôl y swyddogaeth archwilio allanol, er enghraifft, ble mae'r cyfrifoldeb statudol yn sefyll. Dywedodd Pennaeth y Cabinet fod y pwynt hwn wedi'i gydnabod.

Gofynnodd un aelod i ba raddau y byddai'r Bil yn symud pwyllgorau archwilio o ran canllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA). Dywedodd y Rheolwr Archwilio y bydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf Rhwydwaith y Cadeiryddion Archwilio ym mis Gorffennaf 2020 ac y bydd swyddogion yn cyfathrebu â’r Sefydliad ynghylch yr amserlenni ar gyfer diweddaru ei ganllawiau. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad yw canllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn benodol i Gymru.

PENDERFYNWYD -

(1) Y Pwyllgor Archwilio i gael ymateb CLlLC i Lywodraeth Cymru ynghylch Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru);

(2) Y Pwyllgor Archwilio i gael gwybodaeth am y broses a'r amserlen ar gyfer datblygu unrhyw ganllawiau mewn perthynas â'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), os a phryd y byddant yn dod i'r amlwg;

(3) Y Pwyllgor i gael barn gan y Gwasanaethau Cyfreithiol am y cyfle i Weinidogion weithredu y tu hwnt i ddiben datganedig Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

71 : TRAFODAETH AR ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2019/20

Cafodd y Pwyllgor bapur trafod ar baratoi Adroddiad Blynyddol 2019/20 y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn cytuno â'r wybodaeth a gafwyd am eu gweithgareddau a'u pwyntiau ffocws yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

72 : DATGANIAD SICRWYDD UWCH REOLWYR A CHYNLLUN GWEITHREDU AGS 2019/20 (CANOL Y FLWYDDYN)

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad ar Ddatganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr (SMAS) a Chynllun Gweithredu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) canol blwyddyn 2019/20. Derbyniodd yr Aelodau grynodeb o'r prif bwyntiau yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybod bod y 23 datganiad sicrwydd wedi'u crynhoi mewn 9 categori. 66% oedd cyfradd gyffredinol llywodraethu cryf neu well. Nododd asesiadau canol-blwyddyn yr aeddfedrwydd mwyaf o ran rheoli risg gyda sgôr yn ymylu ar asesiad cryf. Roedd yr holl feysydd eraill yn adlewyrchu asesiad cymysg, gyda sgoriau ar gyfer Partneriaeth a Chydweithio yn sylweddol is na'r gweddill. Amlygodd yr asesiad canol blwyddyn hefyd y lefel sicrwydd is mewn perthynas â Chenedlaethau'r Dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am fanylion am ganlyniad yr adolygiad o Genedlaethau'r Dyfodol yng nghyfarfod yr uwch dîm rheoli. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y bar bellach wedi'i osod yn uwch o ran asesu a'i fod yn fwy hyderus bod yr uwch dîm rheoli yn nodi eithriadau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn briodol cynnwys y cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu LLCD yn niweddariadau llywodraethu'r Gyfarwyddiaeth.

PENDERFYNWYD

(1) Y dylid nodi’r adroddiad;

(2) Y Pennaeth Cyllid i greu cynllun gweithredu cyfunol trwy ddefnyddio ymatebion cyfarwyddiaethau i fater llywodraethu sylweddol Cenedlaethau’r Dyfodol.

Swyddfa Archwilio Cymru
73 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Cyflwynodd Sarah-Jane Byrne ddiweddariad ar gynnydd rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru ers y cyfarfod diwethaf.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod archwiliad 2018/19 o wasanaethau hamdden ar fin cael ei gyhoeddi. Mae ansawdd yr adroddiad drafft yn cael ei sicrhau ar hyn o bryd.

O ran Rhaglen Archwilio 2019/20, cyfarfu SAC yn ddiweddar â'r uwch dîm rheoli a nodwyd materion allweddol a fyddai'n nodi'r rhaglen waith ar gyfer 2021. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod materion allweddol yn ymddangos ar gofrestr risgiau'r Cyngor e.e. gwydnwch ariannol.

Rheolaeth Trysorlys
74 : ADRODDIAD PERFFORMIAD

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol(RhG) Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys Adroddiad Perfformiad Rheoli'r Trysorlys. Cyflwynwyd yr adroddiad mewn dwy ran – perfformiad, ac ymateb y rheolwyr i Gydymffurfiaeth, Tystiolaeth, Gwaith Cyflawni a Gwaith Adolygu (CEDR) swyddogaeth y Trysorlys.

Gofynnodd aelod ai rhagolwg llif arian 1 flwyddyn oedd y disgwyliad arferol. Dywedodd y RhG fod adolygiadau o lif arian yn anodd mewn llywodraeth leol. Yr arfer gorau fyddai cynnal llif arian manwl y tu hwnt i flwyddyn, ond nid oes digon o adnoddau i ganiatáu i hyn gael ei wneud a'i fonitro'n barhaus yn fanwl. Fel rhan o gynllunio mantolen hirach, mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud o newidiadau allweddol a allai effeithio ar lifau arian.

Dywedwyd wrth yr Aelodau am archwiliad annibynnol CEDR o sgiliau tîm y Trysorlys, cydymffurfiaeth ag arfer gorau, y rheoliadau gofynnol a'r canllawiau proffesiynol. Dosbarthwyd ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau ac awgrymwyd meysydd i'w gwella.

Gofynnodd Aelod am sylwadau ar argymhelliad yr FCA. Dywedodd y RhG fod yr argymhelliad yn ymwneud yn bennaf â'r Cynllun Benthyciadau Ceir. Mae'r Cyngor yn adolygu a ddylai fod yn cynnig y gwasanaeth a bydd yn adolygu a ellir cipio unrhyw feysydd eraill. Mae hyn yn unol ag ymateb y rheolwyr i'r adolygiad CEDR.

Cadarnhaodd y RhG, cyn gynted ag y rhyddhawyd yr hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dwyll, ei fod yn annog pawb sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Trysorlys i'w wneud hyn cyn gynted â phosibl. Bydd yr hyfforddiant hwn ac unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol yn orfodol i staff yn ei dîm.

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad ar berfformiad ac ymateb rheolwyr i CEDR.

75 : STRATEGAETH DDRAFFT 2020/21

Derbyniodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ddrafft ar gyfer 2020/21. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gael ei chymeradwyo fel rhan o Adroddiad y Gyllideb i'r Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Hefyd,

cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar yr adolygiad o'r Polisi Darpariaeth Refeniw Gofynnol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y strategaeth ddrafft yn cynnwys gwelliannau a awgrymwyd mewn argymhellion yn deillio o adolygiad annibynnol a gynhaliwyd ac a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2019.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod llawer o'r dangosyddion yn y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn dibynnu ar y Rhaglen Gyfalaf Derfynol, a fyddai'n cael ei phennu gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Gallai’r ffigurau yn y strategaeth ddrafft newid yn sgil y sefyllfa monitro cyfalaf wedi'i diweddaru ym mis 9, sy'n tybio nad yw unrhyw wariant cyfalaf ychwanegol yn cael ei gymeradwyo i'w dalu o fenthyciadau fel rhan o'r rhaglen gyfalaf wedi'i diweddaru. Dywedwyd wrth yr Aelodau, pe bai ymrwymiadau gwariant ychwanegol yn cael eu hystyried yn rhai fforddiadwy ac yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo fel rhan o'r gyllideb, na fyddai lefel gwariant o'r fath yn debygol o arwain at newid i'r strategaeth.

O ran yr adolygiad o'r Polisi Darpariaeth Refeniw Gofynnol (MRP), dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyfrifo a neilltuo swm o'i gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu gwariant cyfalaf hanesyddol bob blwyddyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y gwaith a wnaed i adolygu a phrofi'r dull a ddefnyddiwyd o ddarparu refeniw darbodus, yn enwedig mewn perthynas â benthyca â chymorth. Canlyniad yr adolygiad yw diwygio'r dull o ymdrin â benthyca â chymorth o sail cydbwysedd sy’n lleihau i ddull 45 mlynedd syml. Mae'r dull 45 mlynedd syml yn sicrhau arbedion a chynigir bod yr arbedion hyn yn cael eu rhoi mewn cronfa wrth gefn i gefnogi gwydnwch ariannol. Bydd y newid hwn i'r Polisi MRP yn cael ei gynnig i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Cadarnhaodd y RhG ei fod wedi cael cymorth i ddatblygu'r strategaeth a'i rhoi at ei gilydd. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan y swyddog A151 ac ymgynghorwyr rheoli’r Trysorlys allanol y Cyngor.

PENDERFYNWYD

(1) nodi Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21;

(2) nodi’r newidiadau i'r Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Gofynnol ar gyfer 2019/20 a blynyddoedd i ddod.

Archwilio Mewnol
76 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO YN 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiad yn rhoi diweddariad ar waith Archwilio Mewnol ar 31 Rhagfyr 2019.

Rhoddwyd trosolwg o berfformiad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Mewnol, y gwaith a wnaed, yr argymhellion â blaenoriaeth, canfyddiadau beirniadol a godwyd, y tueddiadau oedd yn dod i'r amlwg a'r arbedion gwerth am arian perthnasol.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai'r swyddogion yn ailedrych ar argymhellion yr adroddiad ynghylch tipio anghyfreithlon. Dywedodd y Rheolwr Archwilio mai'r targed

yw canlyn ar archwiliadau anfoddhaol chwe mis ar ôl eu cwblhau. Byddai'r archwiliad hwn yn ffurfio rhan o'r cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Wrth drafod canfyddiad archwiliad o Waith Rheoli Asedau a Rhestr Offer TG, gofynnodd aelod a oedd archwiliad mwy sylweddol o asedau TG wedi cael ei ystyried. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod yr archwiliad corfforaethol yn edrych ar y fframwaith ac ar gydymffurfiaeth o ran rheoli asedau TG, a nododd fylchau sylweddol mewn cofnodion rhestrau eiddo, sy'n angenrheidiol ar gyfer cofnodi, monitro a gwirio priodol. Trafodwyd y canfyddiadau â'r Prif Swyddog Digidol, a fydd yn cyfathrebu cyfrifoldebau i reolwyr. Hefyd, mae archwiliadau thematig o waith rheoli asedau ar y gweill o fewn cyfarwyddiaethau, a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar archwilio.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

77 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO YN 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Adroddiad Cynnydd y Tîm Ymchwilio Archwilio Mewnol. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad o waith y Tîm Ymchwilio ar 31 Rhagfyr 2019.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

78 : SIARTR ARCHWILIO DDRAFFT A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2020/21

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r Siarter Archwilio Mewnol ddrafft i'r Aelodau ar gyfer 2020/21, gan gynnwys y Cylch Gorchwyl drafft a'r Cynllun Archwilio Crynhoi drafft ar gyfer 2020/21. Tynnodd y Rheolwr Archwilio sylw at y newidiadau a'r diwygiadau arfaethedig i'r Siarter.

Gofynnodd Aelod a oedd y 15 diwrnod a neilltuwyd ar gyfer gwaith Budd-dal Tai yn y Cynllun Archwilio drafft yn ddigonol yng ngoleuni'r newidiadau dilysu seiliedig ar risg (RBV). Dywedodd y Rheolwr Archwilio y rhagwelir y byddai ymrwymiad archwilio ar wahân yn canolbwyntio ar RBV yn cael ei gynnwys yn y cynllun manwl ym mis Mawrth 2020, ac y byddai amser archwilio pellach yn cael ei neilltuo ar gyfer hynny.

Llongyfarchodd y Pwyllgor yr aelod o staff a oedd wedi ennill ei gymhwyster IIA.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

79 : GOHEBIAETH GRAFFU

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

80 : CAMAU SY’N WEDDILL

Adolygodd yr Aelodau gamau gweithredu'r Pwyllgor Archwilio, a thrafodon nhw’r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhelliad ar gyfer rheoli perygl arfordirol, a godwyd ym mis Ionawr 2019.

Credwyd nad ymdriniwyd â'r elfen rheoli digwyddiadau yn yr argymhelliad er mwyn cau'r argymhelliad ar y cam hwn.

Aeth yr Aelodau ati i ailedrych ar yr argymhelliad a'i fireinio o bosibl, fel rhan o eitem adborth gweithdy'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Mawrth 2020.

Yn y gweithdy, a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Pwyllgor, fe wnaeth y Pwyllgor greu cam gweithredu drafft er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i adolygu statws yr argymhellion a'r camau gweithredu yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD - Y Pwyllgor Archwilio i ystyried y cynnydd yn erbyn ei argymhelliad ar reoli perygl arfordirol, a'i ofynion dilynol/rhaglen waith, fel rhan o'r eitem agenda ynghylch adborth hunanasesu a chynllun gweithredu hunanasesu ym mis Mawrth 2020.

81 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Nodwyd

82 : EITEMAU BRYS

Dim

83 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24 MAWRTH 2020

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm